# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 10/04/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (CAD) | Gruffydd Williams | Guto Williams | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Andrew Owen | Rhys Tudur | Glenda Rice | Catrin Roberts | Bethan Williams |
| Gwynfor Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Sian Hughes

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion 13/03/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

6. **Traethau**
   Diweddariad gan Gruff Williams – Wedi cysylltu hefo Llŷr Bowmont Cyngor Gwynedd ynglŷn â datrysiad i warchod traethau Nefyn a Morfa Nefyn. Mae'r traethau yn iawn am eleni gyda warden ar y ddau draeth dros yr haf.
   Ni does eto ddatrysiad at y dyfodol. Bydd angen trefnu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ddiwedd y tymor er cael trefniant yn ei le i'r dyfodol.

7. **Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon**
   Adnabod llecynnau agored - Nefyn
   Rydym wedi derbyn map yn amlygu llecynnau agored yn Nefyn yw cytuno ac adrodd yn ôl. Mae Gruff Williams wedi edrych dros y mapiau ac wedi gwneud newidiadau yn barod yw gyrru yn ôl i adran Polisi ar y Cyd Cyngor Gwynedd.

8. **Llwybrau**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams – Mae baw cwn yn broblem enfawr ar lwybr Lleiniau Penrallt. Tybed oes angen dirwy mwy? Faint o aml mae'r warden o gwmpas?
   Mae'r biniau baw cwn wedi eu gosod mewn llefydd annifyr yw defnyddio, mae un wrth adwy Cae Ceffylau ac ar lwybr yr arfordir. Oes bosib cael arwyddion i ddangos lle mae'r biniau?
   Gruff Williams am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i drafod.

9. **Y Ddol**
   Dim Diweddariad i gysoni gwybodaeth. Nid yw'r cyngor wedi derbyn diweddariad gan y datblygwr. Rhian Hughes-Jones i ddilyn i fynnu wrth yrru neges i'r cwmni eto yn ogystal â Chyngor Gwynedd.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Gruff Williams – Diwedd mis Ebrill mae'r les yn dod i ben ar y siop siarad. Mae is-bwyllgor ariannol wedi trafod y sefyllfa ac yn awyddus i barhau i ddefnyddio'r gofod i'r dyfodol gan fod angen talu am storfa beth bynnag ac mae angen man cyfarfod i'r cyngor tref.

Mae Arfon Hughes wedi cael trafodaeth hefo'r perchennog; holi a oes bosib gostwng y rhent i oddeutu £50 yr wythnos gan nad oes arian wrth gefn i dalu am Siop Siarad i'r dyfodol. Mae'r perchennog am drafod gyda'i gyd berchnogion.

Mae'r cyngor tref wedi bod yn talu £1000 y flwyddyn am storfa yn unig yn y gorffennol.

Os ydi'n bosib cadw Siop Siarad gellir ei ddatblygu i'r dyfodol;

- Cyfrifiaduron fel hwb
- Defnyddio'r gofod i weithio gyda'r ieuenctid
- Gellir cynnal oll gyfarfodydd y cyngor tref yno
- Gwybodaeth i'r gymuned a thwristiaeth

**11. Cadw Cymru yn Daclus**

Diweddariad gan Andrew Owen –Yn dilyn yr hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar hefo'r clybiau ieuenctid mae morâl yn isel iawn yn y gymuned. Felly nid yw ieuenctid yr ardal yn awyddus iawn i wneud gwaith gwirfoddoli.

**12. Finiau – Ardal Pen Llyn**

Sian Hughes wedi ymddiheuro nad yw'n mynychu'r cyfarfod ac felly bydd yr eitem yn cael ei ohirio.

**13. Llyfrgell**

Diweddariad gan Sharon Williams – Mae'r llyfrgell bellach wedi ei drosglwyddo yn swyddogol i'r cyngor tref. (01/04/2018)

Mae Nia Gruffydd, rheolwr llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd wedi cynnig cyfarfod yr is-bwyllgor llyfrgell yn Siop Siarad am 7 o'r gloch 17/04/2018 i fynd drwy drefniadau dydd i ddydd y llyfrgell. Mae angen i ddau aelod o'r pwyllgor i fod pwynt cyswllt ac yn gyfrifol am goriad y llyfrgell. Mae Rhian Hughes-Jones y Clerc ac Arfon Hughes y Cadeirydd wedi eu henwebu.

Bydd angen trefnu yswiriant cyn gynted a bod modd.

Diolch yn fawr I Sharon am ei gwaith arbennig yn ymdrin â'r trosglwyddiad.

**14. Cyfrifon y Cyngor**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Bydd yn amserol i drefnu is-bwyllgor ariannol.

**15. Mynwentydd**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi rhoi dewis o ddau fin i'r aelodau bydd dewis un hefo twll ar ei dop. Awgrymir pwrcasu un ohonynt i ddechrau i weld sut beth ydi o gyn pwrcasu tri arall yw gosod yn y fynwent. Bydd angen trefnu is-bwyllgor mynwentydd i benderfynu lle'r'w gosod.

Diweddariad Gruff Williams – Mae'r wal gerrig bron wedi ei orffen. Mae angen mynd ymlaen hefo'r gwaith ffensio a thacluso. Yn cynnwys clirio hen ffens a chwynnu.

Rydym wedi derbyn dau dendr i'r gwaith ac yn fuddugol mae Gareth Williams, Dinas. Bydd Rhian Hughes-Jones yn cysylltu yn ffurfiol cyn gynted a bod modd i drefnu'r gwaith. Rhaid gwneud yn siŵr bod gofal yn cael ei wneud i warchod y bedd sydd wedi ei osod yn y safle yma.

**16. Cyfraniad at yr ysgolion**

Briodol i drafod cyfraniadau i ysgolion yr ardal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gan fod y Cyngor Tref yn defnyddio'r ysgolion i gynnal cyfarfodydd misol ddylid rhoi cyfraniad i'r ysgolion fel diolch.

Rhian Hughes-Jones ac Arfon Hughes i edrych beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol gan gofio nad oes arian wedi ei neilltuo i'r diben hyn gydag o'r gwariant cyfraniadau eisoes yn ystod 2017-18.

Gohirio at gyfarfod 08/05/2018

**17. Clirio Dofgfennau Hanesyddol**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Dim diweddariad disgwyl am fwy o wybodaeth ynglŷn â rheolau Diogelu Data sydd yn dod i rym 25/05/2018.

**18. Lwfans Cynghorydd 2018 – 2019**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Mae angen llawer mwy o wybodaeth, wedi gohirio at bwyllgor mis Mai.

**19. Edrych Ar Ôl Y Planhigion**

Llythyr Elaine Thomas, Hen Ffrwd; Tybiau blodau presennol wedi pydru. Mae Mrs Thomas yn hapus i barhau i edrych ar ôl y planhigion. Yn sgil hyn bydd eisiau trefnu twb newydd. Sharon Williams am drefnu hefo Sian Hughes ac Alan Griffith I gynnal y planhigion i gyd, mae £750 wedi ei rannu pro-rata wedi ei ddynodi ar gyfer y gwaith yn y gyllideb. Mae un twb angen ei waredu ar Lon Bridin, Guto Williams am gysylltu hefo Cliff Hughes i wneud y gwaith.

**20. Oriau ychwanegol y clerc**

Diweddariad Arfon Hughes – Codiad cyflog wedi ei gadarnhau yn is-bwyllgor ariannol. Mae'r codiad yn adlewyrchu dyletswyddau newydd.

**21. Toiledau**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – wedi derbyn contract gan Gyngor Gwynedd. Mae'r contract yr u fath a chontract llynedd. Pwyllgor yn hapus yw arwyddo. Disgwyl anfoneb o £12,000 am gynnal y toiledau.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C17/1222/42/LL**
Cais i gadw sied amaethyddol
Tu Hwnt i'r Ffrwd, Morfa Nefyn
**Gwrthwynebu – Gor ddatblygiad o'r safle gwledig. Ffordd anaddas i'r safle.**

**C18/0167/42/LL**
Codi uchder to'r eiddo er mwyn creu ystafelloedd yng ngofod y to ynghyd ac adeiladu estyniad deulawr gromen blaen.
Faraway, Lon Golff, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 10/04/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Mawrth 2018
2. **SLCC** - Bwletin Mawrth 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Mawrth 2018
4. **Local Council Update** – Mawrth 2018
5. **Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer sir Gwynedd -** Mae'r ymgynghoriad nawr ar agor
6. **Cyngor Gwynedd** - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Amryw Ffyrdd yn Ardal Dwyfor) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2018
7. **Clwb Hoci Pwllheli –** Gwybodaeth yn dilyn cyfraniad.
8. **Swyddfa Archwilio Cymru -** Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o holl gynghorau tref a chymuned Cymru
9. **Llywodraeth Cymru** – Cynadleddau Trosglwyddo Asedau Cymunedol
10. **Par- Calonnau Cymru -** Gweithio gyda'ch Cymuned
11. **Un Llais Cymru -** Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol
12. **Llywodraeth Cymru** – Strategaethau lleol ar gyfer darparu toiledau – Dogfen Ymgynghori ar Ganllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol
13. **Seren Môr Consortium -** digwyddiad lansio**Unllais Cymru -** Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018
14. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** - Creu Senedd i Gymru: Mae dal cyfle i ddweud eich dweud
15. **Llywodraeth Cymru** - Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'
16. **Trysorlys Cymru –** Archwilio sut y gallai taliadau neu newid i'r system dreth fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â gwastraff plastig
17. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** ydych yn dymuno parhau i dderbyn gwybodaeth
18. **Cyngor Gwynedd** - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Amryw Ffyrdd yn Ardal Dwyfor) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2018 – Ail Rybudd
19. **Parc Cenedlaethol Eryri** - CynllunDatblygu Lleol adolygedig Eryri 2016 – 2031
20. **Un Llais Cymru** - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – 19 Ionawr 2018
21. **Fields in Trust** - Active Spaces Grants Programme
22. **Jason Humphreys** – Cyfarfod cyhoeddus; Clybiau Ieuenctid
23. **SLCC** - Cynhadledd ary Cyd Un Llais Cymru / SLCC 16 Mai 2018
24. **Planning Aid Wales -** Cynllunio i Gymunedau
25. **Steve Morgan Foundation** – Arian ar gael i'r anabl

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 10/04/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**<u>Taliadau wedi cael ei cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** | |
| Chwefror £726.93 | **£726.93** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£135.95** |
| **Clif Hughes** – | |
| Gwaith Ychwanegol | **£93.00** |
| **Ashley Hughes** – Nwyddau Cefnogol | **£4.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| G D Roberts & Son | **£900.00** |

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Grŵp mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
4. **Theatr Bara Caws – Gymorthdal I flwyddyn 2017-18**
5. **Eisteddfod yr Urdd – Cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018**
6. **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cefnogi Staff, 150 Hamper I staff a fydd yn gweithio dros y nadolig i ddiolch a Gwobrau i staff.**
7. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwadol Llangollen**
8. **Dawns i bawb – Dawns mewn ysgolion, cartrefi henoed a Llyfrgelloedd.**
9. **Clwb Nofio PBP – Porthmadog Blaenau Ffestiniog a Pwllheli.**
10. **Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a`r Fro 2018**
11. **Cylch Meithrin Nefyn – Cyfraniad at adnoddau.**
12. **Cymdeithas Pared Dewi Sant Pwllheli.**
13. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Apél Ambiwlans Awyr Cymru i Blant**
14. **Canolfan Therapi Plant Cymru**


**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf:** Ffiniau Cynghorau (23/04/2018)

Cyfraniadau Ysgolion

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 10/04/2018 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh





Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651